ATODIAD 2

| | ARGYMHELLIAD | CAMAU GWEITHREDU |
|---|---|---|
| 1 | Dylai blaenraglen y Cabinet a Chynllun y Cyngor gael rhagor o ddylanwad ar flaenraglen y pwyllgorau craffu cyhoeddus fel bod allbwn craffu yn bwydo i mewn i benderfyniadau a gynllunnir gan y Cabinet. | RYDYM WEDI:<br>• Amlygu materion cynllun y cyngor wrth flaenoriaethu materion i'w craffu yn y gweithdai blynyddol a'u cyflwyno yn y Pwyllgorau craffu<br>• cryfhau blaen raglen y Cabinet<br>• Addasu templed adrodd i'r Cabinet er mwyn amlygu materion sydd wedi eu blaen graffu<br><br>RYDYM AM:<br>• Amlygu materion Cynllun y Cyngor/ sy'n cael eu blaen graffu ymhellach trwy eu gwneud yn fwy gweledol<br>• Sicrhau fod mwy o wybodaeth am flaen raglen y Cabinet ar gael yn amserol |
| 2 | Dylid rhoi amlygrwydd uwch i wybodaeth perfformiad o fewn y pwyllgorau craffu cyhoeddus er mwyn herio'r cynnydd a wneir. | RYDYM WEDI:<br>• Cychwyn adnabod cryfderau a gwendidau ein trefniadau cyfredol<br>• Adnabod rôl i'r cyfarwyddwyr corfforaethol gefnogi'r craffwyr i adnabod materion i'w craffu<br><br>RYDYM AM:<br>• Weithio gyda'r Prif Weithredwr i lunio trefniadau cyflwyno gwybodaeth perfformiad mewn pwyllgorau craffu yn ffurfiol gan ddatblygu rôl y cyfarwyddwyr corfforaethol i gefnogi'r craffwyr |
| 3 | Dylid defnyddio darparwyr priodol boed yn fewnol neu yn allanol i gyflenwi hyfforddiant mewn meysydd arbenigol fel sgiliau cwestiynu, materion ariannol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, er mwyn cynyddu hyder aelodau i herio yn effeithiol. | RYDYM WEDI:<br>• Cynnal hyfforddiant i'r Cadeiryddion a'r is-gadeiryddion ar drefniadau craffu<br>• Cynnal hyfforddiant ynghylch datgan buddiant pan fo Cynghorwyr 'rhy agos' at bwnc penodol<br>• Trefnu hyfforddiant i'r holl Gynghorwyr ar sgiliau cwestiynu a chreu argymhellion (arfer da)<br><br>RYDYM AM:<br>• Gynnal hyfforddiant i Gadeiryddion a darpar Gadeiryddion ym mis Mai 2024<br>• Atgoffa'r Cynghorwyr eto eleni am faterion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y gweithdai craffu blynyddol. |
| 4 | Dylid adolygu prosesau craffu i sicrhau bod pwyslais priodol ar ddeddfwriaeth gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | RYDYM AM:<br>• Atgoffa'r Cynghorwyr eto eleni am faterion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Cydraddoldeb 2010 yn y gweithdai craffu blynyddol.<br>• Atgoffa'r holl Gynghorwyr craffu o'r pwysigrwydd i fynychu'r gweithdai craffu blynyddol a chymryd rhan yn yr hyfforddiant sydd ar gael |

| | ARGYMHELLIAD | CAMAU GWEITHREDU |
|---|---|---|
| | (Cymru) 2015, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â hwy. | |
| 5 | Dylid ystyried cynnal nifer uwch o ymchwiliadau gan wahodd nifer gyfyngedig o aelodau i ymuno’r grŵp tasg a gorffen o blith pob pwyllgor craffu neu’r holl aelodau, fel bod y sawl sydd â diddordeb yn y maes yn cael cyfle i gymryd rhan a chynnal brwdfrydedd. Bydd hyn yn gyfrwng i ymgysylltu efo’r cyhoedd yn ogystal. | RYDYM WEDI:<br>• Ail sefydlu rhaglen ymchwiliadau (a ddaeth i ben dros gyfnod covid am resymau amlwg), o fewn yr adnoddau sydd ar gael<br>• Cadw at ein trefniadau cyfredol o gynnig i aelodau’r pwyllgorau craffu fel man cyntaf cyn ymestyn i'r holl aelodau<br>• Cynnal hyfforddiant i'r Cadeiryddion a’r is-gadeiryddion ar faterion datgan buddiant a sicrhau fod gweithredu yn briodol<br><br>RYDYM AM:<br>• Gynorthwyo Cynghorwyr i adnabod meysydd addas lle dylid blaenoriaethu cynnal ymchwiliad(au) |
| 6 | Dylid cryfhau’r broses o adrodd ar benderfyniadau pwyllgorau craffu a mabwysiadu trefn olrhain ffurfiol, er mwyn cael y gwerth am arian gorau ac amlygu’n gyhoeddus cyfraniad y gyfundrefn craffu i drefniadau llywodraethu’r Cyngor. | RYDYM WEDI:<br>• Cynnal hyfforddiant i Gadeiryddion ac is-gadeiryddion gyda phwyslais ar sicrhau argymhellion cryf / cyfeirio materion i'r Cabinet er mwyn galluogi olrhain yn haws<br>• Gweler uchod ynghylch cryfhau templed adrodd i'r Cabinet<br><br>RYDYM AM:<br>• Gynnal hyfforddiant cwestiynu a chreu argymhellion i'r holl aelodau, i'w cynorthwyo i gwestiynu yn fwy effeithiol a gwneud gwell defnydd o amser craffu<br>• Sefydlu rôl i Gadeiryddion Craffu wrth gyflwyno materion i'r Cabinet sydd eisoes wedi eu blaengraffu<br>• Sefydlu trefn dracio ffurfiol yn dilyn gweithredu ar yr hyfforddiant a gweld allbwn hynny |